Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 15.02.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# YMGYNGHORIAD: Labelu Alergenau Rhagofalus (PAL)

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn ceisio barn ar ddarparu labelu alergenau rhagofalus a gwybodaeth ragofalus am alergenau, fel 'gallai gynnwys', ar lawer o fathau o fwyd a werthir yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/labelu-alergenau-rhagofalus-pal-ymgynghoriad-gallai-gynnwys

# YMGYRCH: Cadwch Cymru'n Daclus – Ardaloedd Ddi-sbwriel

Fel rhan o Caru Cymru, mae Cadwch Cymru'n Daclus yn lansio 'Ardaloedd Ddi-sbwriel' – cynllun newydd wedi ei ddylunio i annog busnesau i gadw eu cymunedau'n ddi-sbwriel. Gobeithir y bydd busnesau o bob math led-led Cymru yn cymryd rhan. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://keepwalestidy.cymru/caru-cymru/cy/ardaloedd-di-sbwriel/

# DIGWYDDIAD: Gweminar twristiaeth Cledrau Cymru 17 Chwefror 2022

Mae prosiect Cledrau Cymru yn fenter ar y cyd, rhwng aelodau Trenau Bach Arbennig Cymru a swyddogion Rheilffyrdd Cymunedol ledled Cymru, i hyrwyddo twristiaeth drwy trafnidiaeth gyhoeddus. Cynhelir sesiwn friffio ar gyfer y diwydiant i lansio gwefan newydd Cledrau Cymru ar 17 Chwefror 2022, 10:00am-11:00am. I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/WalesonRails

Mae gwefan newydd Cledrau Cymru ar gael ar:

https://walesonrails.co.uk/

# RECRIWTIO: Ffeiriau Swyddi Cyffredinol Gwaith Gwynedd

Bydd menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yn cynnal ffeiriau swyddi mewn person ar gyfer pob sector yn ystod Mawrth ac Ebrill yn y lleoliadau canlynol:

- Caernarfon
- Dolgellau
- Pwllheli

- Blaenau Ffestiniog
- Tywyn

Os ydych yn recriwtio ac hefo diddordeb cymryd rhan, cysylltwch â nhw i gadw stondin i chi, naill ai ar 01286 679211 neu gwaithgwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Mae'r uchod yn ychwanegol i'r ffeiriau swyddi sector lletygarwch sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r dau ddigwyddiad sy'n weddill i letygarwch i'w cynnal ym Mhorthmadog ar 17 Chwefror 2022 ac ym Mhwllheli ar 1 Mawrth 2022.

Gallwch hefyd hysbysebu unrhyw swyddi ar hysbysfwrdd Gwaith Gwynedd:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265

## ARIANNU: Grant Rhwystrau rhag Dechrau – Digwyddiad Miwtini Hwb Menter 16 Chwefror 2022

Mae grant Llywodraeth Cymru o hyd at £2,000 ar gael i helpu unigolion i oresgyn rhwystrau i ddechrau busnes a bydd ar gael tan ddiwedd Mawrth 2022. Mae Hwb Menter @ M-SParc yn cynnal digwyddiad ar-lein – Miwtini Rhwystrau rhag Dechrau – ar 16 Chwefror 2022, 10:00am-4:30pm, fydd yn cynnwys gwybodaeth am Grant Rhwystrau rhag Dechrau Llywodraeth Cymru. I gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3Bk4bhu

Am fwy o wybodaeth am y grant, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/grant-rhwystrau-rhag-dechrau

## DIGWYDDIAD: Busnes Cymdeithasol Cymru – Perchnogaeth Gweithwyr 17 Chwefror 2022

Perchnogaeth Gweithwyr yw'r ffurf o berchnogaeth busnes sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, ac yn opsiwn i berchnogion busnes sydd eisiau gwerthu eu busnes neu gwobrwyo a chadw staff. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru ar gyfer y digwyddiad Busnes Cymdeithasol Cymru yma sydd i'w gynnal ar 17 Chwefror 2022, 2:00pm-3:00pm, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/ymunwch-busnes-cymdeithasol-cymru-i-ddysgu-am-berchnogaeth-gweithwyr

## CYFLE: Hac Iechyd Cymru 16 Chwefror 2022 & 1 Mawrth 2022

Mae Hac Iechyd Cymru yn dychwelyd yn 2022 am y nawfed tro i gefnogi arloeswyr a chlinigwyr Cymru i ddatblygu atebion i bweru'r GIG i adferiad yn dilyn COVID-19. Mae £250,000 ar gael trwy Llywodraeth Cymru i'w rannu gyda'r timau buddugol. Bydd yn cael ei gynnal dros ddau sesiwn ar 16 Chwefror 2022 a 1 Mawrth 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/hac-iechyd-cymru-2022

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru